# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw
# ar yr 13eg o Fawrth 2024
# yn Neuadd Goffa Llwyncelyn
# am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Carys Morgan, Ruby Williams, Jocelyn Andrew, a Wyn Jones.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorwr Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Wyn Evans, Garym Roberts, Gerallt Davies, Hywel Lloyd ac Eiddwen Merritt.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Chwefror a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Ceisiadau am arian:**
Paswyd yn unfrydol i roi y rhoddion ariannol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cerebral Palsy | £50.00 |
| Pwll Nofio Aberaeron | £200.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200.00 |
| Urdd Ceredigion | £200.00 |
| Blood Bikes Wales | £100.00 |
| C. Ff. I. Ceredigion | £200.00 |
| HAHAV | £100.00 |
| Sefydliad y Merched | £50.00 |
| Kids Cancer Charity | £100.00 |
| Neuadd Goffa Llwyncelyn | £2000.00 |

**Unrhyw fater arall:**
Soniodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies fod y Cyngor Sir wedi rhoi cais i mewn i gael grant i osod darn pellach o balmant ar Rhiw Goch. Hefyd, dywedodd y Cynghorwr Jocelyn Andrew fod gwter yn Nerwen Gam yn gor-lifo ac angen ei chlirio, dywedodd y Cynghorydd Marc Davies ei fod yn mynd i adrodd hyn nol i'r Cyngor Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 10ed o Ebrill 2024.